**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

26 Gorffennaf 2019

Annwyl Mick

Diolch ichi am eich llythyr am gynlluniau Llywodraeth Cymru o ran deddfwriaeth yn y tymor nesaf.

Mae'r rhaglen o OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE wedi dod i ben fwy neu lai, er rydym yn rhagweld y byddwn yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i ryw 20 o OSau y DU pellach rhwng nawr a gwanwyn 2020. Amcangyfrif yn unig yw hwn. Byddwn yn gosod datganiadau ysgrifenedig SO30C ar gyfer pob un o'r OSau hyn, ond hyd nes y bydd y gwaith o ddrafftio'r OSau hyn yn derfynol nid oes modd inni ragweld ar gyfer sawl un ohonynt y bydd angen Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol.

Nid oes bwriad gennym i osod unrhyw OSau pellach o Gymru sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE i'w sifftio fel y byddant mewn grym erbyn 31 Hydref, sef y diwrnod ymadael. Mae'n bosibl y bydd nifer fach o OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE yn cael eu gosod i'w sifftio dros y ddwy flynedd nesaf, er mwyn mynd i'r afael â materion nad ydynt yn rhai brys erbyn y diwrnod ymadael. Rydym yn rhagweld y bydd ambell OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE ac sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl toriad yr haf.

O ran is-ddeddfwriaeth arferol Llywodraeth Cymru, gall natur y gwaith hwn olygu bod rhaid dwyn ymlaen eitemau yn rheolaidd a hynny'n ddi-oed mewn ymateb i ddigwyddiadau neu faterion a nodir. Gall hyn olygu bod eitemau sydd â llai o frys yn cael eu haildrefnu. O ganlyniad nid wyf yn gallu cynnig ateb pendant i'ch cais. Wrth edrych ar weithgarwch tymor yr hydref y gorffennol, fel arfer byddai Gweinidogion Cymru yn trafod tua 50 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr, fodd bynnag o ganlyniad i effaith Ymadael â'r UE gall lefel y gweithgarwch yr hydref hwn fod yn wahanol iawn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit eisoes wedi ysgrifennu atoch i'ch diweddaru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109.

Yn gywir



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd